**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg

8 Chwefror 2022

Annwyl Weinidog,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol yn ei gyfarfod diwethaf ar 3 Chwefror 2022. Diolch am eich gohebiaeth flaenorol gyda'r Pwyllgor ynghylch y Bil hwn.

Mae adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedi'i osod cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 10 Chwefror. Ysgrifennaf i dynnu eich sylw at wybodaeth bellach y gofynnodd y Pwyllgor amdani cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, fel y nodir ym mharagraffau 32 a 33 yr adroddiad:

- Sut mae Llywodraeth y DU wedi gwneud ei safbwynt yn glir mewn perthynas â chymal 16(5) o'r Bil (Paragraffau 25-26 o adroddiad y Pwyllgor), ac y dylid darparu copïau o unrhyw ohebiaeth mewn perthynas â'r pwynt hwn; a
- Diweddariad pellach gan y Gweinidog ynghylch y pryderon polisi fel y'u nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol ac yn llythyr y Gweinidog dyddiedig 4 Hydref.

O ystyried bod cyn lleied o amser ar gael i graffu ymhellach ar ddarpariaethau'r Bil neu i gyhoeddi gohebiaeth gysylltiedig y Pwyllgor, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani cyn gynted â phosibl, a sicrhau ei bod ar gael i holl Aelodau'r Senedd cyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig

â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg / We welcome correspondence in both Welsh and English.